BELLEROCHE, ALBERT DE (1864 - 1944), peintiwr a lithograffydd

Enw: Albert De Belleroche
Dyddiad geni: 1864
Dyddiad marw: 1944
Priod: Emilie Julie Belleroche (née Visseaux)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: peintiwr a lithograffydd
Maes gweithgaredd: Celf a Phensaernïaeth
Awdur: Thomas Mardy Rees

Ganwyd yn Abertawe a'i ddwyn i fyny gan ei lysdad, W. H. V. Millbank. Yr oedd ei gyfaill Syr Frank Brangwyn yn edmygu ei waith; efe a brynodd ' The Fortune Teller ' o waith yr artist ar ran Amgueddfa Brussels. Rhoes Belleroche nifer o'i ddarluniau i Amgueddfa Genedlaethol Cymru - llun ei fam yn eu plith. Dyfeisiodd ddull o ddarganfod dyfrnodau ffug ym 1915.

Bu farw 14 Gorffennaf 1944 yn Rustington, Sussex. Roedd ganddo ef a'i wraig Emilie Julie Visseaux 2 fab a merch.

Awdur

Y Parchedig Thomas Mardy Rees, (1871 - 1953)

Ffynonellau

*South Wales Echo*and Express, 17 Awst 1944

Who was who?, 1941-50

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 29804238

Wikidata: Q20051236

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu